Rhif: WG36912

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ynghylch Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai

Ebrill 2019

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83876-079-3

Cynnwys


1. CYFLWYNIAD ..... 3

2. CYNNIG ..... 3

3. YMGYSYLLTU Â'R YMGYNGHORIAD ..... 4

4. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD - TROSOLWG ..... 4

5. CRYNODEB O'R YMATEBION I GWESTIYNAU PENODOL ..... 6

6. CASGLIAD ..... 9

7. CAMAU NESAF ..... 9

ATODIAD 1 ..... 11

## 1. Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, Gofal a Thrwsio Cymru ac asiantaethau er mwyn cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol. Gall gwasanaethau gynnwys gosod cyfarpar mewn cartrefi er mwyn helpu unigolion i barhau i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl a lleihau'r risg y bydd yn rhaid eu derbyn i'r ysbyty wedi iddynt faglu neu gwympo, a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynt.

Mae'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru, ac o ganlyniad mae'r system yn rhy gymhleth ac yn rhy anodd i'w deall ar gyfer y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau ynghyd â'r sefydliadau sy'n darparu cymorth.

Yn 2018 bu Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r system addasiadau. Gwnaeth pob sefydliad argymhellion i wella'r modd y caiff addasiadau eu darparu. Gyda chymorth rhanddeiliaid arbenigol mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o safonau gwasanaeth, ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2018.

## 2. Cynnig

Mae'r ddogfen safonau yn amlinellu cyfres o saith o safonau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Safon 1 – Diben
Safon 2 – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Safon 3 – Cyfathrebu
Safon 4 – Ansawdd y Gwasanaeth
Safon 5 – Ansawdd y Cyfarpar
Safon 6 – Amserlenni Disgwyliedig
Safon 7 – Archwiliadau o Gymhwystra

Caiff Safon 6 a Safon 7 eu rhannu ymhellach trwy ddosbarthu'r addasiadau yn rhai 'bach, canolig a mawr' a thrwy bennu lefel y gwasanaeth y gellir ei ddisgwyl ar gyfer pob dosbarth. Mae diffiniadau o'r dosbarthiadau hynny wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hefyd er mwyn sicrhau eu bod mor briodol ac mor hawdd i'w deall ag sy'n bosibl ledled Cymru.

## 3. Ymgysylltu â'r Ymgynghoriad

Gofynnwyd pum cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori:

1. A fydd y safonau gwasanaeth a gynigir yn gwella'r modd y caiff addasiadau i dai eu darparu yng Nghymru? Os na fyddant, a ddylid cynnwys rhagor o safonau gwasanaeth?

2. A yw'r safonau gwasanaeth a gynigir ynghylch yr 'Amserlenni Disgwyliedig' (Safon Gwasanaeth 6) yn ddigon heriol?

3. A yw'r diffiniadau ar gyfer addasiadau bach, canolig a/neu fawr yn ddigon clir? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwneud yn fwy clir?

4. A oes unrhyw broblemau'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, agweddau ar gydraddoldeb neu hawliau plant yr hoffech dynnu sylw atynt yng nghyswllt y canllawiau drafft hyn?

5. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu hychwanegu?

Cawsom 53 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad oddi wrth sefydliadau ac unigolion yr oedd rhai ohonynt am fod yn ddienw. Mae rhestr o'r ymatebwyr a roddodd ganiatâd i'w henwau gael eu cyhoeddi i'w gweld yn Atodiad 1.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ymgynghori yn Llandrindod ar 5 Rhagfyr 2018. Daeth 43 o bobl i'r gweithdy ac roeddent yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, staff awdurdodau lleol, staff Gofal a Thrwsio a staff cymdeithasau tai. Bu TPAS Cymru yn ymgysylltu â'i rwydwaith o denantiaid anabl mewn cymdeithasau tai gan ofyn pum cwestiwn yr ymgynghoriad iddynt.

## 4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad - Trosolwg

Cafwyd 53 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ysgrifenedig. Cafodd y mwyafrif eu cyflwyno gan awdurdodau lleol a chafodd cymdeithasau tai, unigolion a sefydliadau darparu yn y trydydd sector eu cynrychioli hefyd. Mae hynny'n dangos bod yr ymatebion wedi dod o ystod eang o gyfeiriadau a oedd yn cynnwys sefydliadau, awdurdodau lleol ac unigolion, fel y gwelir yn nhabl 1.

Tabl 1

| Math o ymatebwr | Nifer | % |
|---|---|---|
| Unigolion | 7 | 13% |
| Awdurdodau lleol | 19 | 36% |
| Sefydliadau yn y sector preifat | 3 | 6% |
| Cymdeithasau tai | 9 | 17% |
| Gofal a Thrwsio Cymru / Asiantaethau | 3 | 6% |
| Arbenigwyr iechyd | 3 | 6% |
| Grwpiau cymunedol / Grwpiau cynghori | 3 | 6% |
| Elusennau / Y trydydd sector | 4 | 8% |
| Sefydliadau arbenigol / Sefydliadau cynghori | 2 | 4% |

**Crynodeb o'r ymatebion – trosolwg**

At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ynghylch datblygu Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai a'r bwriad i'w gweithredu. Yn gyffredinol, codwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Mae gan y ddogfen Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai gyfle i wella mynediad i wasanaethau a chynnig dealltwriaeth ynghylch lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl.

- Mae'r safonau yn fan cychwyn da i gefnogi'r nod hirdymor, sef gwella'r modd y caiff addasiadau i dai eu darparu ledled Cymru, ac ystyrir y byddant yn parhau i wella wrth i brosesau monitro data wella.

- Ar y cyfan, cytunwyd i raddau helaeth bod y safonau gwasanaeth yn berthnasol ac yn gyraeddadwy. Mynegwyd pryderon pwysig ynghylch yr amserlen ar gyfer darparu addasiadau bach, sef cyn pen pythefnos, gan nodi ei bod yn rhy heriol.

- Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â darparu mwy o eglurder ynghylch y safonau a gynigir, er mwyn deall disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr hefyd am weld cysylltiadau cryfach â'r agenda ehangach o ran polisi, megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Cydraddoldeb 2010 ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

- Codwyd pwyntiau ehangach a oedd yn tynnu sylw at feysydd y byddai angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw er mwyn i'r safonau fod yn effeithiol ac er mwyn i'r gwaith o ddarparu addasiadau i dai fod yn llwyddiannus:
  - Mae angen symleiddio'r modd y caiff addasiadau eu hariannu, oherwydd bod y gwahaniaeth rhwng gwahanol gronfeydd yn cyfrannu at system anghyson ac annheg.
  - Dylai addasiadau i dai gael eu hystyried yn un o nifer o opsiynau a all helpu pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol. Roedd yr opsiynau eraill y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys rôl gweithgarwch ailalluogi, a lle bo'n briodol gallai ailgartrefu rhywun fod yn ateb mwy effeithiol.

- Mae angen mwy o arweiniad ac eglurder i landlordiaid yn y sector preifat fel eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.
- Er y bydd y safonau yn gwella cysondeb yn y modd y darperir addasiadau i dai, byddant hefyd yn codi disgwyliadau ymysg defnyddwyr, a fydd yn anodd eu rheoli gyda chyllidebau ac adnoddau cyfyngedig.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau penodol

**5.1 Cwestiwn 1:** A fydd y safonau gwasanaeth a gynigir yn gwella'r modd y caiff addasiadau i dai eu darparu yng Nghymru? Os na fyddant, a ddylid cynnwys rhagor o safonau gwasanaeth?

**Crynodeb o'r ymatebion**
Cafwyd cyfran fawr o ymatebion cadarnhaol gan ymatebwyr a oedd yn teimlo y byddai'r safonau yn helpu i wella'r modd y caiff gwasanaethau addasiadau i dai eu darparu, ac roedd 79% o'r ymatebion yn croesawu'r bwriad i weithredu safonau gwasanaeth. Roedd mwyafrif y sylwadau a gafwyd yn canolbwyntio ar yr angen i egluro ac ehangu'r safonau a oedd yn y ddogfen ymgynghori, ac ni chafodd unrhyw safonau ychwanegol newydd eu cynnig.

Nodwyd bod angen mynd i'r afael â'r cymhlethdod a mynd i'r afael â'r opsiynau ariannu annheg er mwyn helpu'r safonau gwasanaeth i lwyddo. Er enghraifft, mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer perchen-feddianwyr yn destun prawf modd a chânt eu capio, ond gall tenantiaid cymdeithasau tai gael addasiadau mawr yn ddigwestiwn. Bydd mynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â'r safonau gwasanaeth yn helpu i leihau anghysondebau.

Teimlid yn gryf y byddai gweithredu'r safonau gwasanaeth ar gyfer pob math o addasiadau i dai'n darparu trothwy a fyddai'n sail i fesur y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Teimlid hefyd y byddai'n sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cwblhau gwaith a'r profiadau y mae unigolion yn eu cael yn gyson â'i gilydd, beth bynnag fo'r ddeiliadaeth sydd ganddynt neu'r opsiynau ariannu sydd ar gael iddynt.

Ar sail yr ymatebion hyn, ynghyd ag argymhellion adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r sector er mwyn gwneud mwy o newidiadau i'r system. Mae'r safonau yn darparu llwyfan ar gyfer cyflwyno newid yn y sector, a byddant yn cynnig adnodd cynllunio i ddarparwyr gwasanaeth er mwyn iddynt allu darparu addasiadau i dai mewn modd mwy cyson.

O ystyried yr ymateb cadarnhaol, mae'r newidiadau a wnaed yn canolbwyntio'n bennaf ar eglurder a manylder er mwyn i bobl allu deall y safonau'n well.

**5.2 Cwestiwn 2:** A yw'r safonau gwasanaeth a gynigir ynghylch yr 'Amserlenni Disgwyliedig' (Safon Gwasanaeth 6) yn ddigon heriol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd dros hanner yr ymatebion a gafwyd, 68%, yn teimlo bod yr amserlenni disgwyliedig yn ddigon heriol, yn enwedig ar gyfer addasiadau canolig a mawr.

Roedd mwyafrif y sylwadau a gafwyd yn ymwneud â'r amserlen arfaethedig ar gyfer darparu addasiad bach, sef cyn pen pythefnos. Dywedodd llawer o ddarparwyr y byddai hynny'n anodd i'w gyflawni yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd y sylwadau hefyd yn nodi y byddai'n haws blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu addasiadau bach pe bai modd eu rhannu'n rhai brys ac yn rhai nad oes brys amdanynt, gydag amserlen hwy ar gyfer gosod addasiadau bach nad oes brys amdanynt.

Roedd sylwadau eraill a gafwyd yn nodi'r angen i gael eglurder ynghylch y 'pwynt dechrau' ar gyfer addasiad, er mwyn sicrhau ei bod yn glir beth y bydd yr amserlenni disgwyliedig yn ymwneud ag ef ac o ba bryd y caiff y safon ei mesur. Mae'r canllawiau terfynol yn egluro hynny ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd achosion lle na fydd yr amserlenni'n briodol am nifer o resymau, os bydd angen archwilio mesurau cymorth eraill cyn y ceir cadarnhad bod addasiad yn angenrheidiol.

Mewn rhai ymatebion cafwyd anogaeth i ystyried yr effaith y gall addasiadau bach i dai ei chael ar les unigolyn a'i allu i fyw yn annibynnol yn ei gartref ei hun. O ganlyniad, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r effaith o ran gwerth am arian y gall addasiad sydyn ei chael, wrth feddwl am osod addasiadau bach.

Mynegodd nifer o ddarparwyr gwasanaeth bryder ynghylch cyflwyno terfyn amser o 10 diwrnod gwaith ar gyfer cwblhau addasiadau bach i dai. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi addasu'r amserlen gan nodi y dylid cwblhau addasiadau bach cyn pen 15-20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafwyd yr atgyfeiriad, yn dibynnu ar faint o frys sy'n perthyn i'r sefyllfa. Mae'r safonau yn egluro'r pwynt dechrau a fydd yn berthnasol i'r gwahanol amserlenni.

**5.3 Cwestiwn 3:** A yw'r diffiniadau ar gyfer addasiadau bach, canolig a/neu fawr yn ddigon clir? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwneud yn fwy clir?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd 64% o'r ymatebion yn credu bod y diffiniadau ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr yn ddigon clir i'w deall. Nododd rhai o'r sylwadau a gafwyd y dylid darparu rhestrau manwl o'r gwahanol fathau o waith sy'n perthyn i bob categori er mwyn i bobl allu eu deall yn well.

Awgrymodd rhai ymatebion na ddylai'r diffiniadau fod yn derfynol ac na ddylent fod yn rhestr gyflawn, gan fod rhai achosion yn amrywio o ran eu cymhlethdod, hyd yn oed yn achos addasiadau bach. Mae hynny'n adlewyrchu ein nod, sef cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y safonau gwasanaeth er mwyn helpu darparwyr gwasanaeth i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio eu hadnoddau, o ystyried y pwysau sydd arnynt ac anghenion yr unigolyn. Byddai cael rhestr gyflawn yn rhy anodd i'w reoli, ac ni fyddai'n rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaeth ddefnyddio eu barn broffesiynol ynghylch y ffordd orau o ddosbarthu'r addasiadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw golwg ar y maes hwn, a bydd yn diweddaru ac yn diwygio'r safonau gwasanaeth os daw i'r amlwg bod angen rhagor o fanylion.

**5.4 Cwestiwn 4:** A oes unrhyw broblemau'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, agweddau ar gydraddoldeb neu hawliau plant yr hoffech dynnu sylw atynt yng nghyswllt y canllawiau drafft hyn?

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 68% o'r ymatebion yn gadarnhaol ynghylch y modd y mae'r safonau gwasanaeth yn ystyried anghenion y defnyddwyr gwasanaeth o ran y Gymraeg, cydraddoldeb a hawliau plant.

Ar sail y sylwadau a gafwyd, mae'r safonau wedi'u diweddaru ymhellach er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Deddf Cydraddoldeb 2010, ac er mwyn sicrhau bod y safonau'n cysylltu yn well â nhw.

**5.5 Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu hychwanegu?

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd llawer o syniadau defnyddiol yn yr ymatebion i gwestiwn 5, ac mae Llywodraeth Cymru wedi'u hadolygu a'u hystyried.

Nodwyd na all y safonau gwasanaeth lwyddo ar eu pen eu hunain i wella'r modd y caiff addasiadau i dai eu darparu ledled Cymru. Mae angen i lawer o elfennau ddod ynghyd i sicrhau bod y safonau gwasanaeth yn effeithiol ac yn ystyrlon, gan gynnwys sut y cânt eu monitro a'u gwerthuso. Caiff hynny ei adlewyrchu yn y safonau gwasanaeth terfynol.

Dylid hefyd ystyried y modd y mae'r safonau gwasanaeth yn cyd-fynd ag agweddau eraill ar addasiadau i dai, megis yr adolygiad 'Adaptations Without Delay' sy'n cael ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol.

Awgrymwyd creu pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Cymru gyfan er mwyn symleiddio'r modd y mae unigolyn yn ymwneud â'r gwasanaeth a symleiddio'r broses o ran sut a ble y caiff unigolion eu cyfeirio at y partneriaid darparu perthnasol, gan leihau amserau aros a sicrhau dull mwy cyson o ddarparu addasiadau i dai.

## 5.6 Adborth o'r gweithdy ymgynghori a chan y rhwydwaith partneriaid

Yn rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru weithdy ymgynghori lle'r oedd 43 o bobl yn bresennol a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a darparwyr gwasanaeth o'r trydydd sector. Roedd y trafodaethau a hwyluswyd ar y dydd yn gadarnhaol at ei gilydd, ac roedd pobl yn croesawu cyflwyno'r safonau gwasanaeth. Mae rhai sylwadau cyffredinol wedi'u cynnwys isod:

### 5.7 Adborth o weithdai'r rhwydwaith partneriaid

Yn ogystal â'r digwyddiad uchod, gofynnodd ein partner ym maes cyfranogiad tenantiaid (TPAS Cymru) bum cwestiwn yr ymgynghoriad i'w rwydwaith anabledd, mewn gweithdai a gynhaliwyd yn y de a'r gogledd. Roedd cyfanswm o 28 o bobl yn bresennol yn y ddau gyfarfod rhwydwaith, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o staff a thenantiaid tai cymdeithasol o bob rhan o Gymru. Roeddent o ystod eang o wahanol grwpiau oedran a chefndiroedd, ac roedd ganddynt ystod eang o wahanol anableddau (ee colli golwg, colli clyw, defnyddio cadair olwyn). Mae rhai sylwadau cyffredinol wedi'u cynnwys isod:

O ystyried y safbwyntiau a'r awgrymiadau tebyg a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr (5.5 a 5.6), mae'r holl sylwadau wedi'u hystyried a chânt eu harchwilio fel ffordd o wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ledled Cymru.

## 6. Casgliad

At ei gilydd, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i'r safonau gwasanaeth a gynigir ar gyfer addasiadau i dai, ac roedd tua 65% o'r atebion o blaid y safonau gwasanaeth a gynigiwyd.

Er bod gofal wedi'i gymryd i gydnabod yr holl awgrymiadau a oedd yn yr ymatebion a gafwyd, nod y Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai yw peidio â bod yn rhy gyfarwyddol a chynnig hyblygrwydd yn hytrach, sy'n darparu ar gyfer amrywiadau a phwysau lleol.

Mae newidiadau wedi'u gwneud i'r safonau gwasanaeth, sy'n rhoi sylw i'r awgrymiadau a wnaed yn yr ymatebion, ee ynghylch yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen a'r amserlenni ar gyfer addasiadau bach. Wrth symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r sector er mwyn gwneud mwy o welliannau i'r system gyfan er budd aelodau'r cyhoedd ledled Cymru, beth bynnag fo'r ddeiliadaeth sydd ganddynt neu ble bynnag y maent yn byw.

## 7. Camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn myfyrio ynghylch yr ymatebion a gafwyd ac wedi ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai.

Y bwriad yw cyhoeddi'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (Ebrill 2019) fel eu bod yn barod i'w gweithredu ar draws pob sefydliad sy'n darparu gwasanaeth addasiadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall yr angen i barhau i fod yn hyblyg yn y modd y mae'n ymdrin ag addasiadau i dai, ac mae mwy o waith yn cael ei wneud i sicrhau gwelliannau parhaus i'r modd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu. Felly, bydd y Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai yn cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn ddefnyddiol a'u bod yn parhau i

ddarparu sylfaen ar gyfer arferion da ar draws Cymru ac ar draws yr holl sefydliadau sy’n darparu addasiadau.

Atodiad 1

## Unigolion / sefydliadau a ymatebodd

Action 50+ Trefynwy
ADSS
Anabledd Cymru
Canllaw
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
COS a CCG
Cyngor Abertawe
Cyngor Bro Morgannwg – Tîm addasiadau i dai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd (Gwasanaethau tai)
Cyngor Dinas Casnewydd (Therapyddion galwedigaethol cymunedol)
Cyngor Sir Fynwy / gwasanaethau integredig
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Alzheimer Cymru
Cymorth Cymru
David Williams
G. Williams
Gofal a Thrwsio Cymru
Grŵp Monitro Tai Ceredigion
Grŵp Mynediad Arfon
Grŵp Tai Pennaf
H. Jones
Michael Cleminson
Modular Adaptation Pods Ltd
Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru
Richard W Ebley
Tai Gogledd Cymru
Tai Pawb
Tai Sir Fynwy
Tai Tarian
Tai Wales & West
TPAS Cymru – Digwyddiadau'r rhwydwaith anabledd
United Welsh Housing Association Ltd
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Panel Arbenigol ar Dai yn y Sector Preifat

Cafwyd cyfanswm o 9 o ymatebion dienw hefyd.